**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-16-01(min)**

**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 21 Tachwedd 2001

**Amser:** 2.00 i 4.50pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol:** **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| (**Cadeirydd dros dro**) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |

**Yn bresennol:**

**Aelodau o'r Grwp Ymgynghorol ar Anableddau Dysgu**

| | |
|---|---|
| Norbert Flynn | Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan |
| Dr Oliver Russell (cadeirydd) | Canolfan Ymchwil Norah Fry |
| Keri Smallman | Defnyddiwr y Gwasanaeth |
| Howard Sinclair | Mencap Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Abraham | Is-Adran Plant a Theuluoedd |
| Chris Burdett | Is-Adran Plant a Theuluoedd |
| John Carter | Is-Adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, NHS Cymru |
| Helen Thomas | Cyfarwyddwr, Grwp Gofal Cymdeithasol |
| Dr Sarah Watkins | Uwch Swyddog Meddygol |
| Bob Woodward | Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies, Rod Richards a Kirsty Williams. Cymerodd Peter Black le Kirsty Williams.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiant cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Peter Black, aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Brian Gibbons, Meddyg Teulu Cofrestredig;
- Dai Lloyd, meddyg teulu, aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac mae ganddo frawd yng nghyfraith sy'n Seiciatrydd Ymgynghorol ym maes Anableddau Dysgu.

**Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog**
**Papur: HSS-16-01(p.1)**

2.1 Mewn ymateb i'r papur, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd siom ynglyn â'r broses o gydweithio â San Steffan ar Fesur Diwygio'r NHS a'r Proffesiynau Gofal Iechyd, gan y byddai'r Mesur wedi cael ei ail wrandawiad yn San Steffan cyn i'r Cynulliad gael cyfle i'w drafod. Mynegwyd pryder hefyd fod darpariaethau ar gyfer Cymru yn cael eu cynnwys mewn Mesur ar gyfer Cymru a Lloegr, ac nid ym Mesur NHS Cymru.
- Roedd angen i ymuno â phartneriaid yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i olrhain lle yr oedd arian ychwanegol ar gyfer yr NHS yn cael ei wario a sut yr oedd hyn yn cysylltu ag allbwn.
- Mynegwyd pryder bod cyd-arolygon o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cofnodi mai ychydig iawn o asesiadau o ofalwyr oedd yn cael eu cynnal.
- Roedd rhai Aelodau wedi derbyn cynrychioliadau gan elfennau o'r sector gofal cartref ynglyn â'r baich y byddai'r rheoliadau Safonau Gofal yn eu creu, yn arbennig i gartrefi bach.

2.2 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd yn aros i dderbyn achos busnes drafft ar gyfer Ysgol Glinigol Gogledd Cymru. Byddai'r cynigion yn cael eu hystyried gan y grwp lefel uchel a gadeirir gan y Prif Swyddog Meddygol a chânt eu datblygu fel rhan o rownd cynllunio cyllideb y flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd Dr Ruth Hall y byddai'n cymryd hyd at 2003 i sefydlu'r seilwaith sydd ei hangen ar gyfer datblygiad o'r maint sylweddol hwn.
- Byddai cynllun gweithredu a fyddai'n cynnwys manylion am y broses weithredu i ddatblygu'r ystyriaethau a nodwyd yn yr adroddiad ar Nyrsys Banc ac Asiantaeth ar gael ym mis Ionawr. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r adroddiadau a gyflwynir gan ymddiriedolaethau ac a fyddai'n llunio rhan o'r arolwg chwarterol o'r awdurdodau lleol a'r ymddiriedolaethau. Parheir i ddarparu adroddiadau diweddaru fel rhan o adroddiad misol y Gweinidog.

- Ni ddosbarthwyd optometreg fel cwrs meddygol na chwrs iechyd proffesiynol. Cyfrifoldeb y sefydliadau addysg uwch ydoedd yn llwyr i bennu pa gyrsiau y dewisant eu cynnig a nifer y llefydd sydd ar gael i fyfyrwyr ar y cyrsiau hynny. Nid oedd gan y Cynulliad unrhyw bwerau i ymyrryd mewn materion o’r fath ond byddai’r Gweinidog yn trafod y cyfle i ddylanwadu’n strategol ar y sefydliadau gyda Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.
- Roedd amseriad y cyfleoedd deddfwriaeth sylfaenol yn holl bwysig er mwyn llwyddo i ailstrwythuro’r NHS a diddymu’r awdurdodau iechyd erbyn 2003. Gwnaed darpariaeth yn araith y Frenhines ar gyfer taith Mesur Diwygio’r NHS yn Lloegr drwy’r Senedd felly penderfynwyd y dylid cynnwys cymalau galluogi ar gyfer Cymru.
- Rhoddwyd ystyriaeth i olrhain sut yr oedd arian ychwanegol ar gyfer lleddfu pwysau yn yr NHS yn cael ei wario.
- Roedd disgwyl y byddai canlyniadau’r broses cymryd stoc o’r lefelau presennol o sgrinio clyw newydd-anedig yng Nghymru ar gael yn y man. Yna byddai angen ystyried yr arian sydd ei angen i ddatblygu’r mater hwn.
- Byddai copïau o brosiectau’r cynllun Arloesi mewn Gofal yn cael eu dosbarthu i’r aelodau.
- Roedd Cymru’n arwain y ffordd o ran datblygu Asesiadau Effaith Iechyd drwy ei phroses o reoli rhaglen Amcan Un. Roedd gwaith yn dechrau cael ei wneud ar gynnal asesiadau effaith strategol, gyda chymorth gan y Comisiwn Ewropeaidd, mewn perthynas â datblygu a fyddai’n cynnwys agweddau iechyd ac agweddau amgylcheddol. Bu’r Gweinidog hefyd yn cydweithio’n agos gyda Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, ar asesiadau lleol.
- Pennwyd £1.9m yn benodol ar gyfer hwyluso asesiadau gofalwyr ac roedd yn bwysig sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio’r arian i’r perwyl hwnnw.
- Roedd y pwysau ar y sector cartrefi gofal yn nhermau cau cartrefi ac oedi wrth gyfeirio pobl yn cael eu harolygu. Byddai ystadegau ar ddarpariaeth y gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi yn y man.
- Roedd ymgynghoriad ar waith ar effaith y rheoliadau Safonau Gofal.
- Cafodd yr ymateb i’r arolwg o Uned Cofrestru ac Archwilio Abertawe a Chastell Nedd a Port Talbot ei fonitro yn ddiweddar. Byddai Cyfarwyddiaeth Safonau Gofal Cymru yn gyfrifol am gyfrifoldebau’r Uned o fis Ebrill 2002.
- Gwnaed buddsoddiad ar draws nifer o isadrannau’r Cynulliad er mwyn mynd i’r afael â materion trais yn y cartref a byddai angen dod â’r buddsoddiad hwn ynghyd.
- Codwyd cymhwyster ffoaduriaid a cheiswyr lloches i dderbyn llaeth am ddim a bwyd gan y wladwriaeth les gyda’r Adran Iechyd.
- Roedd trafodaethau’n cael eu cynnal gydag ymddiriedolaethau’r NHS a oedd yn cofnodi diffygion. Byddai’r newyddion diweddaraf yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad misol nesaf.
- Byddai manylion pellach ar sut yr oedd awdurdodau iechyd yn defnyddio arian camddefnyddio sylweddau yn yr adroddiad misol nesaf. Awgrymwyd y byddai’r Pwyllgor yn derbyn papur yn nodi gan David A’Hearne, y Cyfarwyddwr Lleihau Troseddau, ar asedion a atafaelwyd.

2.3 Cynghorodd Ann Jones yr Aelodau ei bod, fel y cadeirydd dros dro, wedi derbyn cais gan y Gweinidog i gymryd rhan yn y tasglu a sefydlwyd i edrych ar y materion sy’n gysylltiedig â Chymdeithas y Plant. Byddai’n darparu adroddiad ar y cyfarfod i’r Aelodau.

Gweithredu

- Copïau o brosiectau'r cynllun Arloesi mewn Gofal i'w dosbarthu i'r Aelodau.
- Papur yn nodi ar atafael asedion.

**Eitem 3: Tasglu'r Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol**
**Papur: HSS-16-01(p.2)**

3.1 Mewn ymateb i'r papur a chyflwyniad y Gweinidog, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Roedd yn bwysig cael ymatebion lleol i anghenion lleol ond roedd angen safonau cenedlaethol hefyd.
- Byddai angen i ganlyniadau arolwg y Pwyllgor o wasanaethau ar gyfer plant ag anghenion iechyd arbennig gael eu bwydo i mewn i'r strategaeth.
- Roedd y systemau ariannu presennol yn anghyson. Roedd angen system ariannu symlach.
- Roedd gweithlu wedi'i hyfforddi'n dda yn hynod bwysig. Roedd angen arddangos y gwerthfawrogir y gweithlu.
- Roedd angen agwedd gyfannol tuag at ofal. Roedd pobl y mae angen help arnynt gyda gofal yn aml yn gofalu am berthnasau oedrannus yn ogystal â phlant a byddai angen i unrhyw system sydd â'r nod o godi lefel gofal o ansawdd gydnabod hynny.
- Mynegwyd pryder bod y rheoliadau ar gyfer cael Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio yn rhoi pobl sy'n ymgymryd â hyfforddiant o dan anfantais.
- Byddai angen arian cyson yn yr hirdymor er mwyn gweithredu'r strategaeth.
- Mynegwyd pryder ynglyn â lefel y ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yng Nghymru, yn arbennig yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.
- Gallai ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ac ardaloedd Amcan Un brofi'r prosiectau ar sail peilot.
- Mynegwyd siom ynglyn â'r dadansoddiad economaidd ym Mhennod 2. Credwyd bod y manteision economaidd i'r cymunedau'n llawer mwy na'r hyn a awgrymwyd yn y ddogfen. Roedd angen system fesur hefyd.
- Mynegwyd pryder gan warchodwyr plant y gallai'r cyfyngiadau a achoswyd gan reoliadau ac archwiliadau ei gwneud hi'n anymarferol yn ariannol iddynt barhau.

3.2 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Roedd angen ymagwedd strategol i ddod â chyfraniadau ar bob lefel ynghyd.
- Roedd llawer o waith da yn cael ei wneud gan Bartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ledled Cymru.
- Roedd cronfeydd mynediad ar gael er mwyn galluogi pobl mewn addysg bellach i gael gofal plant.
- Roedd Cyllid y Wlad yn ymgynghori ar olynydd y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio a byddai angen bwydo pryderon pobl sy'n ymgymryd â hyfforddiant i mewn i hynny.

- Roedd pwyslais y strategaeth ar blant yn hytrach nag ar ymagwedd economaidd yn adlewyrchu'r amcan o gyrraedd y cymunedau mwyaf difreintiedig.
- Roedd llawer o brojectau Cychwyn Cadarn yn darparu cyfleoedd gofal plant yn ogystal â chyfleoedd chwarae. Amlygwyd rôl y grwpiau chwarae fel rhan o'r pecyn gofal plant.
- Roedd y Mudiad Ysgolion Meithrin yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad gofal plant.

3.3 Cytunwyd y byddai'r strategaeth yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgorau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Leol a Thai, a Datblygu Economaidd a'r Cynghorau Partneriaeth cyn y ddadl yn y cyfarfod llawn ar 4 Rhagfyr. Byddai'r Gweinidog yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan yr Aelodau yn ei sylwadau agoriadol.

<u>Gweithredu</u>

- Strategaeth i'w dosbarthu i'r Pwyllgorau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Leol a Thai, a Datblygu Economaidd a'r Cynghorau Partneriaeth.

**Eitem 4: Adroddiad y Grwp Ymgynghorol ar Anableddau Dysgu**
**Papur: HSS-16-01(p.3)**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Dr Oliver Russell, Canolfan Ymchwil Norah Fry a Chadeirydd y Grwp Ymgynghorol; Norbert Flynn, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan; Howard Sinclair, Mencap Cymru; a Keri Smallman, defnyddiwr y gwasanaeth, a diolchodd iddynt am ddod i gyflwyno eu hadroddiad 'Gwireddu'r Addewidion' i'r Pwyllgor.

4.2 Dywedodd Dr Russell bod gan Gymru gefndir da o ddatblygu gwasanaeth ac ymchwil ac amcan 'Gwireddu'r Addewidion' oedd galluogi i'r lefelau uchel o wasanaeth i deuluoedd barhau. O'r 17 argymhelliad a gynhwysir yn yr adroddiad, credai mai'r canlynol oedd y prif flaenoriaethau:

- Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ategu ei ymrwymiad i ddatblygu'r modd i ymestyn y cyfle i bob person ag anableddau dysgu yng Nghymru i fyw bywyd sy'n gyson â Strategaeth Cymru Gyfan 1983 a 'Gwireddu'r Addewidion'.
- Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried sefydlu rhaglen fuddsoddi strwythuredig i gynyddu a datblygu argaeledd y gwasanaeth.
- Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol adolygu ei ymrwymiad i gau ysbytai arhosiad hir a phennu dyddiad targed newydd ar gyfer cwblhau sef 2006 neu'n gynharach na hynny. Dylai hefyd ymestyn cwmpas y fenter hon i gynnwys lleoliadau llety amhriodol eraill.
- Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn ymwybodol y byddai nifer y bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru yn debygol o gynyddu.

4.3 Dywedodd Norbert Flynn ei bod yn hanfodol gwrando ar safbwyntiau defnyddwyr y gwasanaeth a chydnabod rôl rhieni a gofalwyr. Ym 1983, rhieni a gofalwyr oedd yn ymgymryd â 80% o ofal ond dim ond 20% o'r adnoddau yr oeddent yn ei dderbyn ac nid oedd yn credu bod y sefyllfa hon wedi newid.

Roedd rhieni yn gofalu am eu plant am eu bod yn eu caru a'u bod mewn sefyllfa llawer gwell nag unrhyw un arall i ddeall beth oedd eu hangen arnynt i'w galluogi i fyw bywyd llawn a llwyddiannus. Roedd Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan yn gwerthfawrogi'r arian a roddwyd iddynt gan y Cynulliad. Roeddent hefyd am gymryd mwy o ran yn yr ymarferion ymgynghori a'r ymgyrchoedd ond roedd hyn yn amhosibl heb gymorth priodol.

Roedd y gwasanaethau'n amhriodol o ran eu graddau a'u hansawdd, ac roedd y ddarpariaeth yn fratiog ar draws Cymru. Credwyd bod y gwasanaethau'n adlewyrchu adnoddau annigonol yn hytrach nag angen, roedd anableddau dysgu yn cynyddu ond roedd y gwasanaethau'n ddigyfnewid. Heb arian digonol byddai 'Gwireddu'r Addewidion' yn ddibwys.

4.4 Dywedodd Keri Smallman, ers cyhoeddi 'Gwireddu'r Addewidion' ar gyfer ymgynghoriad, bod Mencap a grwpiau eraill wedi bod yn cynnal cyfarfodydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd er mwyn trafod sut y byddai'n gwella eu bywydau. Prif bryderon pobl ag anableddau dysgu oedd arian, siarad drostynt eu hunain ac eiriolaeth, sut i gynllunio a chymryd rhan yn y broses o gynllunio ar y cyd i sicrhau bod 'Gwireddu'r Addewidion' yn llwyddo. Dywedodd 'Gwireddu'r Addewidion' bod angen mwy o arian er mwyn gwneud y gwasanaethau'n well. Roedd llai o arian yn golygu llai o wasanaethau. Dywedodd y dylai'r Cynulliad fod yn onest ynglyn ag arian cyn gwneud addewidion. Byddai angen defnyddio unrhyw arian ychwanegol yn ddoeth. Dylid gwrando ar bobl ag anableddau dysgu. Tra bod gan y rhieni, gofalwyr a'r gwasanaethau cymdeithasol rôl i'w chwarae o ran cynrychioli eu safbwyntiau, hwyrach bod ganddynt syniadau eu hunain hefyd a dyna pam fod angen eiriolwr i siarad ar eu rhan. Dylid sicrhau bod yr un lefel o fynediad ar gael i'r gwasanaethau ledled Cymru. Roedd cynllunio ar gyfer y dyfodol yn bwysig iawn a dylid cynnal cyfarfodydd cynllunio'n amlach nag unwaith y flwyddyn. Roedd mynediad i wybodaeth ddefnyddiol ar y gwasanaethau sydd ar gael hefyd yn hanfodol. Dywedodd fod 'Gwireddu'r Addewidion' yn cynnig pethau newydd i bobl ag anableddau dysgu a dywedodd y dylai'r Cynulliad ei ddefnyddio fel cyfle i wella eu bywydau.

4.5 Gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd pryder bod amrywiaethau o hyd, er gwaethaf y canllaw i awdurdodau lleol, o ran cynnwys defnyddwyr a gofalwyr yn y broses gynllunio. Roedd angen dull monitro er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â defnyddwyr a gofalwyr.
- Credwyd nad oedd y ddogfen yn trafod yn ddigon cynhwysfawr y mater o beth fyddai'n digwydd pan fo person ag anableddau dysgu yn byw'n hirach na'u rhieni neu eu gofalwr, am fod hyn yn bryder mawr i lawer o rieni a gofalwyr.
- Er bod rhagdybiaeth fod pawb am gael gofal yn y gymuned, roedd lleiafrif yn credu bod diddymu llety sefydliadol wedi cyfyngu ar eu dewis.

4.6 Mewn ymateb i sylwadau gan yr Aelodau, gwnaeth aelodau'r Grwp Ymgynghorol y pwyntiau canlynol:

- Roedd angen opsiynau mwy hyblyg ar gyfer oedolion ag anawsterau dysgu. Hwyrach bod rhai

ohonynt am aros gartref gyda'u rhieni tra bod eraill am ddod yn fwy annibynnol. Dylai pobl allu gwneud eu dewis eu hunain.

- Y prif fater a oedd yn peri pryder mewn cysylltiad â chyflogaeth wedi'i chynnal oedd lefelau enillion a diogelwch. Nid oedd ateb syml i hyn ond roedd llawer o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn a chyflwynwyd llawer o ddatblygiadau peilot yng Nghymru.
- Nid oeddent wedi canfod bod llawer o bobl am gael llety sefydliadol. Y brif ystyriaeth oedd y dylai pobl gael cyfle i wneud dewis. Drwy'r ymarfer ymgynghori, roedd rhieni a gofalwyr yn cael cyfle i leisio eu barn.
- Roedd hyfforddiant gofal cymdeithasol i'r gweithlu yn bwysig iawn. Roedd ansawdd gwasanaeth yn dibynnu ar y staff yn cefnogi'r bobl a oedd yn ei dderbyn. Roedd angen mwy o fuddsoddiad mewn hyfforddiant er mwyn i'r staff fod yn fwy cymwys.
- Cyfanswm y buddsoddiad yr oedd ei angen i weithredu 'Gwireddu'r Addewidion' fyddai £253m, £60m ychwanegol ar y lefelau gwariant presennol.
- Dylid rhoi llawer o gefnogaeth i blant ag anableddau dysgu i ddysgu yn yr amgylchedd gorau. Yn y mwyafrif o achosion, byddai hynny mewn addysg prif ffrwd.
- Ni thrafodwyd cymunedau pentrefi yn fanwl yn yr adroddiad. Roedd manteision ac anfanteision i gynlluniau o'r fath ac er bod tystiolaeth yn dangos bod byw mewn grwp bach yn darparu cymorth safonol, ni fyddai hynny'n addas i bawb. Am nad oedd stoc tai ar gael i ddarparu cartref parod i rywun a fyddai'n dymuno symud o gartref y teulu, ystyriwyd cymunedau pentref fel y dewis olaf yn aml.
- Roedd gan Gymru gapasiti sylweddol ond nid oedd yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf am nad oedd yn bosibl ennyn cymorth digonol.
- Byddai'r rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn dymuno gweld arian ychwanegol yn cael ei neilltuo.
- Roedd llawer o grwpiau rhieni wedi cael cynrychiolwyr yn y gorffennol ar grwpiau cynllunio gwasanaethau cymdeithasol lleol ond roedd ad-drefnu llywodraeth leol wedi effeithio'n andwyol ar hynny.
- Un o gryfderau 'Gwireddu'r Addewidion' oedd yr egwyddor eich bod bob amser yn dechrau gyda'r unigolion a'u hanghenion wrth benderfynu ar y ddarpariaeth gwasanaeth, yn hytrach na chymharu rhinweddau un math o wasanaeth gydag un arall.

4.7 Diolchodd y Gweinidog i bawb am eu cyfraniad. Dywedodd y dylai pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr fod yn bartneriaid allweddol wrth gynllunio, gweithredu a monitro'r gwasanaethau a ddarperir iddynt. Roedd yr adroddiad wedi codi llawer o faterion pwysig a byddai'n cael ei gyfeirio yn awr i'r Pwyllgorau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Leol a Thai a Datblygu Economaidd ei ystyried.

4.8 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod ganddynt hyd at 18 Ionawr i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar yr adroddiad.

**Eitem 5: Cofnodion**
**Papur: HSS-15-01(min)**

5.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd.

**Eitem 6: Unrhyw Fater Arall**

Grant Arbennig Gofalwyr 2001: HSS-16-01(p.4)

6.1 Gofynnodd David Melding am asesiad o ble yr oedd yr arian ychwanegol yn cael ei wario a pha un a oedd unrhyw wasanaethau ychwanegol yn cael eu darparu o ganlyniad i hynny.

Blaenraglen Waith: HSS-16-01(p.5)

6.2 Cytunwyd y dylid diwygio'r agenda ar gyfer 5 Rhagfyr er mwyn cael cyfle i drafod Mesur Diwygio'r NHS a Gofal Iechyd.

Panel Penodiadau Cyhoeddus

6.3 Cytunodd y Pwyllgor y dylai Ann Jones gymryd lle Kirsty Williams ar y panel penodiadau cyhoeddus.